**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Prif Weinidog Cymru

3 Hydref 2024

Annwyl Eluned,

Gwahoddiad i roi tystiolaeth

Fel y gwyddoch, mae cylch gwaith craffu ein Pwyllgor yn cwmpasu cyfran helaeth o'ch cyfrifoldebau fel Prif Weinidog, gan gynnwys cysylltiadau rhynglywodraethol, Cymru ac Ewrop, a'r Rhaglen Ddeddfwriaethol. Hoffem, felly, eich gwahodd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod y materion hyn yn fanwl gyda chi.

Deallwn eich bod yn cael eich gwahodd i roi tystiolaeth bob tymor i Bwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ac y gallech hefyd roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Fodd bynnag, gan fod gennych gyfrifoldeb penodol a strategol am y meysydd a amlinellir uchod, byddai'n werthfawr tu hwnt pe gallech ymddangos gerbron ein Pwyllgor ni i roi tystiolaeth mewn perthynas â'r materion hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau, cyn gynted ag y bo modd, a fyddwch yn gallu bod yn bresennol. Gall Clerc y Pwyllgor gysylltu â'ch swyddogion i drafod dyddiadau ac amseroedd addas.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**